Solicitors Regulation Authority | SQE

# Cwestiwn enghreifftiol SQE2 a thrafodaeth ar yr ateb

## Eiriolaeth (Ymgyfreitha Troseddol)

*Adolygwyd ddiwethaf ar 28 Tachwedd 2023*

Bydd ymgeiswyr yn sefyll 16 o asesiadau yn SQE2. Er mwyn pasio SQE2, rhaid i ymgeiswyr gael y marc pasio cyffredinol ar gyfer SQE2.

Mae'r cwestiwn enghreifftiol hwn, a thrafodaeth ar yr ateb, yn enghraifft o asesiad eiriolaeth. Bydd ymgeiswyr yn cael 45 munud i gynnal yr eiriolaeth.

Am ragor o fanylion, gweler Manyleb Asesu SQE2.

**Noder bod y cwestiynau enghreifftiol wedi cael eu darparu er mwyn rhoi syniad o'r math o dasgau y gellid eu gosod i ymgeiswyr. Nid ydynt yn adlewyrchu'r holl ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn SQE2. Efallai na fydd cwestiynau yn y dyfodol yn dilyn yr un fformat yn union.**

# Cwestiwn a phapurau ychwanegol i ymgeiswyr

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

**Fe welwch fod rhai termau Cymraeg yn yr asesiad hwn yn cael eu dilyn gan y term Saesneg cyfatebol mewn cromfachau. Yn ogystal, mae rhestr eirfa, sydd wedi'i hatodi, wedi'i ffurfio o'r termau hynny.**

**E-bost at yr Ymgeisydd**

---

**Oddi wrth:** Partner
**Anfonwyd:** 13 Rhagfyr 202#
**At:** Yr Ymgeisydd
**Pwnc:** Steven Jackson

Hoffwn i ti gynrychioli Steven Jackson yn ei ymddangosiad cyntaf gerbron y Barnwr Rhanbarth yn Llys Ynadon Gorllewin Llundain heddiw.

Mae Mr Jackson wedi'i gyhuddo o (charged with) drosedd unigol sef ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol (assault occasioning actual bodily harm) ar ei wraig Emma Jackson.

Mae e'n mynnu ei fod e'n ddieuog ac mae'n bwriadu pledio felly. Bydd y Llys felly'n bwrw ymlaen i ddyrannu a rheoli'r achos. Nid oes gan Mr Jackson unrhyw euogfarnau na rhybuddiadau blaenorol.

Bydd yr erlyniad yn gwahodd y Barnwr Rhanbarth i wrthod awdurdodaeth ynadol (summary jurisdiction) am fod yr achos yn un rhy ddifrifol i'w glywed gerbron ynadon. Bydd yr erlyniad yn cyfeirio at natur yr anafiadau a ddioddefodd yr achwynydd (complainant) a'r cyd-destun lle'r oeddent wedi digwydd.

Mae Mr Jackson am i'r achos aros yn y Llys Ynadon. Bydd angen i ti fod yn barod felly i wneud sylwadau (representations) priodol i'r perwyl hwnnw ar adeg y dyraniad (allocation).

***[At ddiben yr asesiad hwn a beth bynnag fydd eich argymhellion (submissions) ar adeg y dyraniad, bydd y Barnwr Rhanbarth yn cadw awdurdodaeth ddiannod a bydd yr achos yn aros yn y Llys Ynadon. Bydd y Barnwr Rhanbarth wedyn yn gofyn i chi fwrw ymlaen i'w annerch ef/ei hannerch hi ynglŷn â'r materion cyn-treial.]***

Bydd y Barnwr Rhanbarth am wybod ar ba sail mae Steven Jackson yn pledio'n ddieuog er mwyn rheoli'r achos yn briodol a phennu dyddiad ar gyfer treial. Bydd ef/hi hefyd am i chi ddweud wrtho/wrthi ar ba sail y byddwn am herio derbynioldeb (admissibility) cyfaddefiad Steven Jackson yn ei gyfweliad o dan rybuddiad (under caution) a recordiwyd yng ngorsaf yr heddlu.

**Felly, yn y gwrandawiad heddiw, dylet ti fod yn barod i annerch y barnwr rhanbarth ar y materion canlynol:**

1. **pham y dylai’r Llys Ynadon gadw'r awdurdodaeth yn yr achos hwn;**

2. **ar ba sail y mae Mr Jackson yn pledio’n ddieuog gan gynnwys amlinelliad o’r materion i'w dadlau o safbwynt y ffeithiau, a’r materion y cytunnir arnynto; a’r**

3. **dadleuon cyfreithiol y byddi di'n eu defnyddio i geisio eithrio (exclude) cyfaddefiad Mr Jackson.**

Diolch

Partner

*Atodiadau:*

1. Datganiad Emma Jackson
2. Datganiad Dr Dora Simpson
3. Datganiad PC Collins
4. Cofnod o gyfweliad yr heddlu â Steven Jackson
5. Cyfarwyddiadau’r cleient
6. Sentencing Guideline for s.47 Offences Against the Person Act 1861 (Saesneg)

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

1. **At ddiben yr asesiad hwn, ni fydd cyfreithiwr yr erlyniad, na'r diffynnydd, yn bresennol yn yr ystafell gyda chi. Ond, wrth lunio eich dadleuon dylech gymryd yn ganiataol eu bod yn bresennol.**

2. **Byddwch yn annerch un Barnwr Rhanbarth a fydd wedi clywed argymhellion cyfreithiwr yr erlyniad o safbwynt dyraniad. Bydd gan y Barnwr Rhanbarth gopi o Atodiadau 1-4 ac Atodiad 6.**

**Rhestr eirfa ar gyfer Ymgyfreitha Troseddol>Eiriolaeth**

| **Cymraeg** | **Saesneg** |
|---|---|
| achwynydd | complainant |
| arddangosyn | exhibit |
| argymhellion | submissions |
| awdurdodaeth ynadol | summary jurisdiction |
| beiusrwydd llai | lesser culpability |
| cadw dan gadwad | to detain |
| cyhuddo o | to charge with |
| dan rybuddiad | under caution |
| derbynioldeb | admissibility |
| dyraniad | allocation |
| eithrio | exclude |
| gelyniaethus | hostile |
| mechnïaeth | bail |
| swnian arno | to keep on at him |
| sylwadau | representations |
| unigolyn a ddrwgdybir | the suspect |
| ymosodiad sy’n achosi gwir niwed corfforol | assault occasioning actual bodily harm |
| ymosodol | aggressive |

**DATGANIAD TYST**

(*Rheolau Trefniadaeth Droseddol rh.16.2; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967, a.9*)

**Enw:** Emma Jackson

**Oedran:** Dros 18 oed

**Mae'r datganiad hwn, a lofnodwyd gennyf i, yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred ac rwy'n ei wneud yn ymwybodol, os caiff ei roi mewn tystiolaeth, y byddaf yn agored i gael fy erlyn os wyf wedi datgan yn fwriadol ynddo unrhyw beth y gwn ei fod yn ffug, neu nad wyf yn credu ei fod yn wir.**

Rwyf wedi bod yn briod â Steven Jackson ers tair blynedd. Rydym yn byw yn 9 Lancaster Road, Llundain, gyda fy merch o fy mhriodas flaenorol (Katy, sy'n 16 oed) a’n mab (Thomas, sy'n 13 mis oed). Nid yw Steven yn ddyn hawdd i fyw ag ef. Mae’n yfed yn drwm ac mae’n ymosodol (aggressive). Mae ei fusnes ef mewn trafferthion ariannol, sydd wedi ei wneud e'n bigog iawn. Mae e’n colli ei dymer yn rheolaidd, ac mae hynny’n fy nychryn i.

Ychydig fisoedd yn ôl, fe wnes i ddechrau amau bod Steven yn cael perthynas â rhywun arall. Roedd llawer o densiwn yn y tŷ. Roedd Steven yn cyrraedd adref yn hwyr yn aml. Pan wnes i ei herio, dywedodd ei fod wedi bod yn gweithio’n hwyr. Roeddwn yn ymwybodol bod ganddo broblemau o ran ei fusnes. Dywedais fy mod i'n barod i helpu ond doedd dim diddordeb ganddo. Dechreuodd yfed potel o win gyfan bron bob nos. Rai wythnosau’n ôl, cawsom ffrae fawr. Gadawodd y tŷ yn ei dymer ac ni ddaeth yn ôl y noson honno. Ymddiheurodd y diwrnod canlynol ond rhybuddiodd fi i beidio swnian arno (to keep on at him) gan fod ganddo lawer ar ei feddwl.

Yna, roedd pethau'n well am gyfnod. Ar 27 Tachwedd 202#, gwelais neges destun ar ffôn Steven a oedd yn brawf pendant ei fod yn gweld menyw arall. Pan gyrhaeddodd ef adref tua 11.15 pm, daeth i fyny i’n hystafell wely ni. Roeddwn i'n gallu gweld ei fod ef wedi meddwi. Pan holais i ef ynglŷn â’r neges destun, dechreuodd weiddi a fy nghyhuddo i o ysbïo arno. Dywedais wrtho fy mod i eisiau iddo adael y tŷ. Roedd ei ymateb yn dreisgar. Gafaelodd yn fy mreichiau a fy ngwthio i yn erbyn wal yr ystafell wely.

Dechreuodd bacio cês a rhuthro allan o’r ystafell wely i'r landin ar ben y grisiau. Dilynais i ef a gofyn beth oedd e'n ei wneud. Rhoddodd ddwrn i mi yn fy wyneb ac yna gwthiodd fi’n ôl gan achosi i mi syrthio i lawr y grisiau. Rhuthrodd i lawr y grisiau ac allan drwy’r drws ffrynt. Roeddwn yn teimlo’n sâl ac yn ddryslyd a sylweddolais ar unwaith fy mod wedi brifo ac yn gwaedu. Ffoniais fy chwaer ac fe aeth hi â fi i’r ysbyty. Cadarnhawyd yno fy mod wedi torri fy nhrwyn ac wedi torri fy ngwefus, a bod fy wyneb a fy asennau wedi cleisio.

Llofnodwyd: *E Jackson*

Dyddiad: *28 Tachwedd 202#*

**DATGANIAD TYST**

(*Rheolau Trefniadaeth Droseddol rh.16.2; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967, a.9*)

**Enw:** Dr Dora Simpson

**Oedran:** Dros 18 oed

**Mae'r datganiad hwn, a lofnodwyd gennyf i, yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred ac rwy'n ei wneud yn ymwybodol, os caiff ei roi mewn tystiolaeth, y byddaf yn agored i gael fy erlyn os wyf wedi datgan yn fwriadol ynddo unrhyw beth y gwn ei fod yn ffug, neu nad wyf yn credu ei fod yn wir.**

Meddyg ydw i sy’n gweithio yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty St Mary’s.

Ar 28 Tachwedd 202# am 2.30am, bu i mi archwilio claf benywaidd o’r enw Emma Jackson.

Roedd wedi torri ei gwefus ac roedd ochr chwith ei hwyneb a’i hasennau wedi cleisio, ac roedd hi hefyd wedi torri’i thrwyn.

Alla i ddim â dweud unrhyw beth am achos yr anafiadau hyn.

Ar ôl pelydr-x, rhoddwyd cyffuriau lladd poen i’r claf a chafodd ei rhyddhau heb angen am driniaeth ddilynol.

Llofnodwyd: *Dora Simpson* (tyst)

Dyddiad: *28 Tachwedd 202#*

## DATGANIAD TYST

(*Rheolau Trefniadaeth Droseddol rh.16.2; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967, a.9*)

**Enw:** Sally Collins

**Oedran:** Dros 18 oed

**Mae'r datganiad hwn, a lofnodwyd gennyf i, yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred ac rwy'n ei wneud yn ymwybodol, os caiff ei roi mewn tystiolaeth, y byddaf yn agored i gael fy erlyn os wyf wedi datgan yn fwriadol ynddo unrhyw beth y gwn ei fod yn ffug, neu nad wyf yn credu ei fod yn wir.**

PC 1322 Sally Collins ydw i, a Gorsaf Heddlu Hammersmith yw fy lle gwaith.

Ar 28 Tachwedd 202# am 1800 o'r gloch, es i 9 Lancaster Road, Llundain, lle cymerais ddatganiad gan Emma Jackson. Hefyd tynnais gyfres o ffotograffau o'r anafiadau y dywedodd Emma Jackson iddi eu dioddef ar 27 Tachwedd 202#. Arddangosyn (exhibit) SC11 yw'r ffotograffau hyn.

Gan weithredu ar wybodaeth a gafwyd, es i adeilad busnes Steven Jackson yn Longsdale Road, Llundain, W12 8RT am 2030 o'r gloch ar 28 Tachwedd 202#. Roedd Mr Jackson yn cysgu wrth ei ddesg. Fe wnes i ddeffro, arestio a rhybuddio Steven Jackson ar amheuaeth o ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol i Emma Jackson, yn groes i adran 47 o Ddeddf Troseddau Corfforol 1861. Roedd hi'n amlwg i mi bod Steven Jackson yn feddw iawn. Roedd e'n siarad yn aneglur ac roedd yn simsan ar ei draed. Cafodd ef ei gludo i Orsaf Heddlu Hammersmith lle cafodd ei gadw yn y ddalfa'n unol â PACE 1984 a chafodd gyfweliad y bore canlynol.

Am 0730 o'r gloch ar 29 Tachwedd 202#, cynhaliais gyfweliad wedi'i recordio â Steven Jackson ynghyd â PC 6531 Jason Jones (Arddangosyn SC2). Cychwynnodd y cyfweliad am 0730 o'r gloch a daeth i ben am 0752 o'r gloch. Ar ddiwedd y cyfweliad, cyhuddwyd Steven Jackson (was charged) o ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol i Emma Jackson ac fe'i rhyddhawyd ar fechnïaeth (bail) yn ddarostyngedig i amodau i fynd i Lys Ynadon Gorllewin Llundain ar 13 Rhagfyr 202#.

Llofnodwyd: *S Collins*

Dyddiad: *29 Tachwedd 202#*

[1] **Nodyn i Ymgeiswyr: Nodyn i Ymgeiswyr: Nid yw Arddangosyn SC1 ar gael at ddiben yr asesiad.**

## Cofnod o Gyfweliad yr Heddlu (Arddangosyn SC 2)

| | |
|---|---|
| **Y sawl a gyfwelwyd:** | STEVEN JACKSON |
| **Lleoliad y cyfweliad:** | Gorsaf Heddlu Hammersmith |
| **Dyddiad y cyfweliad:** | 29 Tachwedd 202# |
| **Amser cychwyn:** | 0730 o'r gloch |
| **Amser cwblhau:** | 0752 o'r gloch |
| **Hyd y cyfweliad:** | 22 munud |
| **Cyfwelydd:** | PC Sally Collins 1322 |
| **Eraill yn bresennol:** | PC Jason Jones 6531 |

**Rhoddwyd rhybuddiad i STEVEN JACKSON a'i atgoffa o'i hawl i gyngor cyfreithiol. Atebodd JACKSON ei fod yn deall y rhybuddiad ac nid oedd angen cyfreithiwr arno.**

**PC Collins:** Ydych chi'n deall pam eich bod wedi'ch arestio?

**SJ:** Ydw, honiad ffug o ymosod ar fy ngwraig.

**PC Collins:** Mae eich gwraig yn honni eich bod wedi'i tharo a'i gwthio i lawr y grisiau yn eich cartref gan achosi iddi dorri ei thrwyn ac anafu ei hasennau. Mae hi'n dweud bod hyn wedi digwydd ar 27 Tachwedd 202#, yn fuan ar ôl 11.15 pm. Beth sydd gennych i'w ddweud mewn ymateb i'r honiad?

**SJ:** A yw hi wedi gwneud cwyn ffurfiol neu a oes rhywun wedi'i hannog i wneud hyn?

**PC Collins:** Atebwch fy nghwestiwn. Dyma eich cyfle i roi eich fersiwn chi.

**SJ:** Am ba hyd fydd y ffars yma'n para? Dw i'n teimlo'n sâl iawn ac mae'n rhaid i mi fynd i'r gwaith bore 'ma.

**PC Collins:** Atebwch fy nghwestiynau os gwelwch yn dda. Bydd er eich lles chi i wneud hynny. Rydym yn ystyried achosion o drais domestic yn ddifrifol iawn. Rwyf wedi egluro'r rhybuddiad i chi. Dyma eich cyfle chi i ddweud eich dweud. Gallwn eistedd mewn tawelwch os mynnwch chi.

(mae 6 munud o dawelwch ar y tâp)

**PC Collins:** Dywedwch rywbeth wrtha i am eich perthynas ag Emma.

**SJ:** (Nid yw ymateb yr unigolyn a ddrwgdybir (the suspect) yn eglur)

**PC Collins:** Mae eich gwraig yn dweud y daethoch chiadref yn feddw ar 27 Tachwedd. Gwnaeth hi eich herio am berthynas â rhywun arall rydych chi wedi bod yn ei chael. Mae hi'n honni, tra yr oeddech chi a hi yn eich ystafell wely, eich bod chi wedi colli eich tymer a'i gwthio hi yn erbyn y wal.

**SJ:** Wyddwn i ddim beth i'w ddweud. Does gen i ddim geiriau. Mae fy ngwraig yn dweud celwydd. Hi wnaeth ymosod arna' i. Rydych chi'n credu popeth y mae fy gwraig yn ei ddweud, on'd ydych chi?

**PC Collins:** Nid yw'r fater o beth rwy'n ei gredu Mr Jackson. Dyma eich cyfle chi i egluro pethau. Mae eich gwraig yn dweud ei bod hi’n sefyll ar ben y grisiau pan wnaethoch chi ei tharo a'i gwthio'n ôl i lawr y grisiau. Ai dyna ddigwyddodd?

**SJ:** Dyna 'dych chi'n ei gredu. 'Dych chi'n credu'r cyfan. Wnes i ddim ei tharo hi na'i gwthio hi. Roedd hi'n feddw.

**PC Collins:** Nid dyna mae hi'n ei ddweud.

**SJ:** 'Drychwch, swyddog, faint o amser mae hyn yn mynd i gymryd? Dw'i angen i hyn gael ei ddatrys yn gyflym. Dw'i 'di bod yma drwy'r nos. Dw'i 'di dweud wrthych yn barod nad ydw i'n teimlo'n dda, a rhaid i mi fynd i'r gwaith bore 'ma. Rhaid i mi fod mewn cyfarfod pwysig iawn.

**PC Collins:** Mae'n dibynnu ar eich parodrwydd chi i gydweithio, Mr Jackson. Os byddwch chi'n parhau i wadu'r honiad, bydd yn rhaid i ni eich cadw yma tra ein bod yn gwneud ymholiadau pellach ac yna cyfeirio'r achos at Wasanaeth Erlyn y Goron, a bydd hynny'n cymryd amser.

**SJ:** Mae'n edrych yn debyg eich bod am fy nghyhuddo beth bynnag y byddaf yn ei ddweud.

**PC Collins:** Os byddwch ch'n gwadu'r honiadau yn eich erbyn, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron ac fe fydd angen iddyn nhw ystyried y dystiolaeth cyn penderfynu a fyddant yn eich cyhuddo (charge) ai peidio.

**SJ:** 'Drychwch, rwy'n derbyn nad yw pethau wedi bod yn hawdd rhwng Emma a fi. Mae ganddi broblem alcohol. Rwy'n cyfaddef fy mod i wedi colli fy nhymer ar y noson honno. Fe wnes i roi slap iddi ar ei hwyneb ar ben y grisiau a'i gwthio i ffwrdd. Yna collodd Emma ei chydbwysedd a chwympodd/syrthiodd hi i lawr y grisiau. A dyna ni. Gallwch chi fy nghyhuddo a wedyn gadael i mi fynd fel y gallaf fynd yn ôl at fy musnes.

**Daeth y cyfweliad i ben.**

## Cyfarwyddiadau'r Cleient

**Enw:** Steven Jackson
**Dyddiad geni:** 14 Mai 1979
**Cyfeiriad:** 9 Lancaster Road, Llundain, W12 7PR.

Rwy'n ddyn busnes hunangyflogedig. Rwy'n rhedeg fy musnes glanhau carpedi fy hun.

### Y drosedd

Rwyf wedi cael fy nghyhuddo o ymosod ar fy ngwraig Emma Jackson, gan achosi gwir niwed corfforol iddi. Mae hi'n 36 oed. Mae gennym un plentyn, Thomas, sy'n 13 mis oed. Mae gan Emma ferch o briodas flaenorol, sef Katy, sy'n 16 oed. Mae hi'n byw gyda ni. Rwy'n gwadu fy mod wedi ymosod ar neb.

Mae'r berthynas rhyngof i a fy ngwraig wedi bod yn gynyddol anodd yn ystod y mis neu fwy diwethaf. Bob tro y byddwn yn cyrraedd adref yn hwyr, mae hi wedi dechrau ffraeo. Mae hi'n yfed yn dawel bach. Mae hi'n ceisio cuddio'r peth oddi wrtha i ond rwy'n gwybod ei bod hi'n yfed yn ddirgel. Rwyf wedi dod ar draws poteli gwag o fodca a jin yn ei bag ac yn y bin sbwriel. Pan fyddaf yn ei holi am y peth, mae hi'n amddiffynnol iawn.

Rwy'n cyfaddef fy mod wedi cam-drin Emma gyda geiriau ar adegau. Ond nid wyf erioed wedi ymosod arni. Mae Emma'n colli ei thymer yn hawdd a phan fydd hynny'n digwydd nid oes ganddi reolaeth dros ei gweithredoedd, yn enwedig os yw hi wedi bod yn yfed.

I wneud pethau'n waeth, mae fy musnes mewn trafferthion ariannol. Mae mewn perygl o fod yn ansolfent. Mae gan ddau gwmni mawr ddyledion sylweddol i mi am eu bod nhw mewn trafferthion hefyd. Rwyf wedi bod yn gweithio'n hwyr i geisio gwneud yn iawn am yr arian sy'n ddyledus, a hefyd i geisio chwilio am fusnes newydd.

Mae fy ngwraig yn honni fy mod i wedi ymosod arni ar 27 Tachwedd 202#. Mae hi'n dweud fy mod wedi ei gwthio hi yn erbyn wal yr ystafell wely, wedi ei dyrnu ar ei hwyneb a'i gwthio i lawr y grisiau yn ein cartref ni gan achosi iddi dorri ei thrwyn, torri ei gwefus ac achosi cleisio. Nid yw hyn yn wir.

Cyrhaeddais i adref yn hwyr ar 27 Tachwedd. Rwy'n meddwl mai tua 11pm oedd hi. Roeddwn wedi cael cyfarfod â chwsmer posibl, sef rheolwr ardal ar gyfer cadwyn o fwytai, cryn bellter i ffwrdd ar y noson dan sylw, a chymerodd fwy o amser nag arfer i gyrraedd adref oherwydd damwain ar y draffordd. Roeddwn wedi blino. Roeddwn yn gwbl sobor. Daeth Emma ataf yn yr ystafell wely. Roeddwn i'n gallu gweld ei bod hi wedi meddwi. Roedd hi wedi ypsetio. Roedd fy ffôn symudol i yn ei llaw hi. Roeddwn wedi bod yn chwilio amdano drwy'r dydd. Sylweddolais wedyn ei bod hi wedi cymryd y ffôn. Dechreuodd hi siarad am negeseuon testun, gan fy nghyhuddo i o gael perthynas â rhywun arall.

Nid hwn oedd y tro cyntaf i Emma ddweud hyn, a dydw i ddim wedi bod yn cael perthynas â neb arall. Fe sylweddolais y funud honno nad oedd pethau'n mynd i newid rhyngom ni. Rwy'n cyfaddef fy mod wedi gwylltio. Estynnais am fy nghês a dechrau tynnu fy nillad allan o'r droriau. Gofynnodd Emma beth oeddwn i'n ei wneud. Dywedais wrthi fod ein priodas ni drosodd ac fy mod i'n gadael. Gwaeddodd hi arna' i a cheisio fy nharo. Gwthiais i hi i ffwrdd. Roedd hi'n fy nghyhuddo i o fod mewn perthynas arall. Dywedodd nad oeddwn i'n ffit i fod yn dad i Thomas a, phetawn i'n ceisio cael ysgariad, na fyddwn i byth yn gweld Thomas eto ac y byddai hi'n cymryd y busnes oddi arna i.

Roedden ni'n gweiddi ar ein gilydd. Gwnes ei chyhuddo hi o fod yn feddw. Estynnais am y cês a mynd ar y landin ar ben y grisiau. Roeddwn i jyst eisiau gadael. Dilynodd Emma fi a cheisio rhwystro fy ffordd ar ben y grisiau.  Rhoddais y cês i lawr a cheisio siarad â hi, ond fe gollodd hi bob rheolaeth. Neidiodd hi ata' i gyda'i dyrnau wedi'u cau, ond wrth iddi wneud hynny, baglodd hi dros y cês a cholli ei chydbwysedd ac, yn anffodus, fe gwympodd/syrthiodd hi i lawr y grisiau.

Wnes i ddim ei tharo hi na'i gwthio hi i lawr y grisiau. Rwy'n cyfaddef fy mod i wedi gwylltio. Wnes i ddim sylweddoli ei bod wedi brifo; roedd hi'n dal i weiddi arna' i, yn dweud wrtha i am adael y tŷ, felly gadewais i. Cefais fy arestio yn fy swyddfa'r noson ganlynol. Roeddwn i wedi bod yn yfed am y rhan fwyaf o'r diwrnod. Roedd chwaer Emma wedi anfon neges destun yn dweud wrtha' i am gadw draw oddi wrth Emma a bod Emma yn yr ysbyty.

Nid oeddwn i erioed wedi cael fy arestio o'r blaen. Does gen i ddim euogfarnau na rhybuddiadau blaenorol, ac nid wyf erioed wedi bod i'r llys o'r blaen.

**Cael fy nghadw dan gadwad (detention) yng ngorsaf yr heddlu**

Cefais fy nghadw dros nos gan yr heddlu. Gwnes deffro mewn cell gyda phen tost/cur pen ofnadwy. Dywedais i wrth swyddog yr heddlu fy mod yn teimlo'n sâl. Rhoddwyd powlen chwydu gardbord a gwydraid o ddŵr i mi. Roedd hyn am 6.00 o'r gloch y bore. Cefais gynnig brecwast ond roeddwn yn rhy sâl i'w fwyta. Nid oeddwn wedi bwyta dim am 24 awr ac roeddwn yn teimlo'n wan iawn.

Gofynnais i'r swyddog beth oedd yn mynd i ddigwydd i mi. Cefais wybod y byddai rhywun yn cyfweld â mi yn ddiweddarach yn y dydd. Dywedais wrth y swyddog fod gen i gyfarfod busnes pwysig iawn ac ymrwymiadau contractiol roedd yn rhaid i mi eu cyflawni. Roedd y cyfarfod â darpar gleient ar noson 27 Tachwedd.  Roedd cael gwaith newydd mor bwysig i mi. Dywedwyd wrthyf y byddai'n rhaid i fy ngwaith aros.

Cefais gynnig cyngor cyfreithiol pan gyrhaeddais orsaf yr heddlu. Nid oeddwn i'n adnabod unrhyw gyfreithwyr, ac felly gofynnais am weld y cyfreithiwr ar ddyletswydd. Dywedwyd fod gan y cyfreithiwr ar ddyletswydd dri chlient arall i'w gweld o'm mlaen i ac felly byddai'n rhaid i mi aros fy nhro. Dywedwyd y gallwn gael y cyfweliad o fewn yr awr nesaf, os oeddwn i'n barod i gydweithredu. Penderfynais beidio ag aros am y cyfreithiwr ar ddyletswydd.

**Cyfweliad gan yr heddlu**

Roedd agwedd swyddog yr heddlu yn un elyniaethus (hostile) ac ymosodol drwy gydol y cyfweliad. Dywedodd pe bawn i'n parhau i wadu'r honiad, y byddai'n rhaid iddi wneud rhagor o ymholiadau ac y byddwn i'n cael fy nghadw yng ngorsaf yr heddlu. Roeddwn yn teimlo'n sâl iawn. Roedd angen i mi adael gorsaf yr heddlu er mwyn cyrraedd fy nghyfarfod. Roedd yn rhaid i fy musnes gael y gwaith newydd er mwyn gallu goroesi.

Penderfynais os na fyddai neb yn fy nghredu mai'r unig ffordd o gael fy rhyddhau oedd drwy gyfaddef fy mod wedi rhoi slap i fy ngwraig a'i gwthio gan achosi iddi syrthio. Roedd yn beth gwirion i'w wneud, ond roeddwn i'n teimlo dan bwysau. Nid oeddwn yn meddwl yn rhesymol yn ystod y cyfweliad, ac mi ddywedais bethau nad oeddent yn wir.

Nawr hoffwn dynnu'n ôl yr hyn a ddywedais yn y cyfweliad.

# Assault Occasioning Actual Bodily Harm/Racially or Religiously Aggravated ABH

## Crime and Disorder Act 1998, s.29, Offences against the Person Act 1861, s.47

*Effective from:* 01 July 2021
*Assault occasioning actual bodily harm*, Offences against the Person Act 1861 (section 47)
*Racially or religiously aggravated ABH*, Crime and Disorder Act 1998 (section 29)

Triable either way Section 47

Maximum: 5 years' custody

Offence range: Fine – 4 years' custody Section 29

Maximum: 7 years' custody

These are specified offences for the purposes of sections 266 and 279 (extended sentence for certain violent, sexual or terrorism offences) of the Sentencing Code.

### STEP 1 Determining the offence category

The court should determine the offence category with reference *only* to the factors listed in the tables below. In order to determine the category the court should assess *culpability* and *harm*.

### Culpability

The level of culpability is determined by weighing all the factors of the case. Where there are characteristics present which fall under different levels of culpability, the court should balance these characteristics giving appropriate weight to relevant factors to reach a fair assessment of the offender's culpability.

### A – High culpability

- Significant degree of planning or premeditation
- Victim obviously vulnerable due to age, personal characteristics or circumstances

- Use of a highly dangerous weapon or weapon equivalent*
- Strangulation/suffocation/asphyxiation
- Leading role in group activity
- Prolonged/persistent assault

## B – Medium culpability

- Use of a weapon or weapon equivalent which does not fall within category A
- Lesser role in group activity
- Cases falling between category A or C because:
  - Factors in both high and lesser categories are present which balance each other out; and/or
  - The offender's culpability falls between the factors as described in high and lesser culpability

## C – Lesser culpability

- No weapon used
- Excessive self defence
- Impulsive/spontaneous and short-lived assault
- Mental disorder or learning disability, where linked to the commission of the offence

* A highly dangerous weapon can include weapons such as knives and firearms. Highly dangerous weapon equivalents can include corrosive substances (such as acid), whose dangerous nature must be substantially above and beyond the legislative definition of an offensive weapon which is; 'any article made or adapted for use for causing injury, or is intended by the person having it with him for such use'.  The court must determine whether the weapon or weapon equivalent is highly dangerous on the facts and circumstances of the case.

## Harm

### Category 1

Serious physical injury or serious psychological harm and/or substantial impact upon victim

### Category 2

Harm falling between categories 1 and 3

### Category 3

Some level of physical injury or psychological harm with limited impact upon victim

## STEP 2 Starting point and category range

Having determined the category, the court should use the corresponding starting points to reach a sentence within the category range below. The starting point applies to all offenders irrespective of plea or previous convictions. A case of particular gravity, reflected by multiple features of culpability in step one, could merit upward adjustment from the starting point before further adjustment for aggravating or mitigating features, set out below.

The table below contains a non-exhaustive list of additional factual elements providing the context of the offence and factors relating to the offender. Identify whether any combination of these, or other relevant factors, should result in an upward or downward adjustment from the starting point. In some cases, having considered these factors, it may be appropriate to move outside the identified category range.

| Harm | Culpability | | |
|---|---|---|---|
| | A | B | C |
| *Harm 1* | *Starting point*<br><br>2 years 6 months' custody | *Starting point*<br><br>1 year 6 months' custody | *Starting point*<br><br>36 weeks' custody |
| | *Category range*<br><br>1 year 6 months' – 4 years' custody | *Category range*<br><br>36 weeks' – 2 years 6 months' custody | *Category range*<br><br>High level community order – 1 year 6 months' custody |
| *Harm 2* | *Starting point*<br><br>1 year 6 months' custody | *Starting point*<br><br>36 weeks' custody | *Starting point*<br><br>High level community order |
| | *Category range*<br><br>36 weeks' – 2 years 6 months' custody | *Category range*<br><br>High level community order – 1 year 6 months' custody | *Category range*<br><br>Low level community order – 36 weeks' custody |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Harm 3* | *Starting point*<br><br>36 weeks' custody | *Starting point*<br><br>High level community order | *Starting point*<br><br>Medium level community order |
| | *Category range*<br><br>High level community order – 1 year 6 months' custody | *Category range*<br><br>Low level community order – 36 weeks' custody | *Category range*<br><br>Band B fine – 26 weeks' custody |

**Factors increasing seriousness**

**Statutory aggravating factors:**

- Previous convictions, having regard to a)the *nature* of the offence to which the conviction relates and its *relevance* to the current offence; and b) the *time* that has elapsed since the conviction
- Offence committed whilst on bail
- Offence motivated by, or demonstrating hostility based on any of the following characteristics or presumed characteristics of the victim: disability, sexual orientation or transgender identity
- Offence was committed against an emergency worker acting in the exercise of functions as such a worker

**Other aggravating factors:**

- Deliberate spitting or coughing
- Offence committed against those working in the public sector or providing a service to the public or against a person coming to the assistance of an emergency worker
- Offence committed in prison (where not taken into account as a statutory aggravating factor)
- Offence committed in a domestic context
- History of violence or abuse towards victim by offender
- Presence of children
- Gratuitous degradation of victim
- Abuse of power and/or position of trust
- Any steps taken to prevent the victim reporting an incident, obtaining assistance and/or from assisting or supporting the prosecution
- Commission of offence whilst under the influence of alcohol/drugs
- Offence committed whilst on licence or subject to post sentence supervision
- Failure to comply with current court orders

**Factors reducing seriousness or reflecting personal mitigation**

- No previous convictions or no relevant/recent convictions
- Remorse
- Good character and/or exemplary conduct
- Significant degree of provocation
- History of significant violence or abuse towards the offender by the victim
- Age and/or lack of maturity
- Mental disorder or learning disability, where not linked to the commission of the offence
- Sole or primary carer for dependent relative(s)
- Determination and/or demonstration of steps taken to address addiction or offending behaviour
- Serious medical conditions requiring urgent, intensive or long-term treatment

# Trafodaeth ar yr ateb

## Eiriolaeth (Ymgyfreitha Troseddol)

**PWYNTIAU CYFREITHIOL ALLWEDDOL**

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Sylwer nad oes angen cyfraith achos na dyfyniadau statudol manwl gywir (e.e.darpariaethau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) na Chodau Ymarfer PACE).

***Lleoliad y treial***

- Wedi cymhwyso'r Canllaw Dyrannu rywfaint o ran y ddedfryd, cymhlethdod yr achos, a phwerau'r llys.

- Y ddedfryd debygol yn sgil euogfarn gan gyfeirio at y canllawiau dedfrydu diffiniol ar gyfer ABH.

***Sail ple dieuog, crynodeb o ffeithiau sy'n destun dadl a rhai y cytunir arnynt***

- Canfod prif fater ffeithiol yr achos: gwadu bod ymddygiad y diffynnydd wedi achosi anafiadau'r achwynydd fel yr honnwyd.

- Canfod y ffeithiau sy'n destun dadl a'r rhai y cytunir arnynt drwy ddadansoddi'r dystiolaeth sy'n ategu dadleuon yr erlyniad a'r amddiffyniad.

***Dadleuon cyfreithiol i wrthod tystiolaeth cyfaddefiad***

- Adran 76 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE): cymhwyso hyn rywfaint er mwyn canfod y 'pethau a ddywedwyd neu a wnaed' a oedd yn debygol o olygu bod y cyfaddefiad yn annibynadwy.

- Adran 78 o PACE: cymhwyso hyn rywfaint o safbwynt torri PACE/y Codau Ymarfer yn achos y cyfaddefiad a fyddai'n golygu y byddai'n effeithio'n andwyol ar degwch yr achos pe bai'r cyfaddefiad yn cael ei dderbyn.

**RECORDIAD O ENGHRAIFFT**

**Isod rhoddir recordiad sy'n enghraifft o berfformiad ymgeisydd (Saesneg). Mae'r recordiad yn enghraifft o ymgeisydd a fyddai'n cael ei asesu fel un sy'n amlwg wedi pasio'r asesiad.**

**Nid yw'r recordiad yn ateb perffaith na model ac mae pwyntiau pellach y gellid bod wedi'u gwneud.**

**Mae dolen i'r recordiad yma:**
**SQE2: Ymgyfreitha Troseddol (Eiriolaeth Lafar): Enghraifft o Berfformiad Ymgeisydd** (Saesneg)

**DADANSODDIAD**

***Pam ei bod hi'n glir bod yr ymgeisydd yn yr enghraifft wedi pasio'r asesiad?***

Ni fwriedir i'r canllawiau canlynol awgrymu mai dyma'r unig ffordd bosibl o ateb ond bydd yn eich helpu i ddeall pam y byddai'r ymgeisydd yn recordiad o enghraifft yn cael ei ystyried fel un y mae'n glir ei fod wedi pasio yn unol â'r meini prawf asesu ar gyfer yr asesiad.

**Meini prawf yr asesiad**

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer eiriolaeth fel a ganlyn:

***Sgiliau***

1. Defnyddio iaith ac ymddygiad priodol.
2. Mabwysiadu strwythur clir a rhesymegol.
3. Cyflwyno dadl berswadiol.
4. Annerch y llys/ymgysylltu â'r llys yn briodol.
5. Cynnwys yr holl ffeithiau perthnasol allweddol.

***Cymhwyso'r gyfraith***

6. Cymhwyso'r gyfraith yn gywir at sefyllfa'r cleient.
7. Defnyddio'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr yn sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol, a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll.

Mae hi'n glir o edrych ar y meini prawf uchod bod perfformiad yr ymgeisydd yn gymwys am y rhesymau canlynol:

| ***MEINI PRAWF SGILIAU*** | |
|---|---|
| **Defnyddio iaith ac ymddygiad priodol** | Mae argymhellion yr ymgeisydd yn glir ac yn ddealladwy ac mae ei ddefnydd o iaith yn briodol ar gyfer y llys (e.e. "Os caf i eich annerch chi"). Mae'r ymgeisydd yn cyfarch y Barnwr Rhanbarth yn briodol ("Farnwr"). |
| **Mabwysiadu strwythur clir a rhesymegol** | Mae'r ymgeisydd yn defnyddio arwyddbyst i arwain y barnwr drwy ei argymhellion (e.e. "Mewn perthynas â'r dyraniad, mae'r erlyniad yn argymell..."). Mae'r ymgeisydd yn trefnu ffeithiau mewn trefn resymegol i gefnogi ei ddadleuon (e.e. "Byddwn yn argymell y byddai'r ffactorau beiusrwydd llai (lesser culpability) hyn yn galluogi'r llys i ystyried hyn fel trosedd Beiusrwydd Canolig."). |
| **Cyflwyno dadl berswadiol** | Er bod yr ymgeisydd yn oedi ar adegau, yn gyffredinol mae'n cyflwyno ei achos gyda hyder a phwrpas. Mae'r ymgeisydd yn ceisio dylanwadu ar benderfyniadau'r barnwr (e.e. "Dylid eithrio cyfaddefiad Mr Jackson o dan a.76 o PACE ar y sail ei fod yn annibynadwy oherwydd cafwyd y cyfaddefiad mewn ffordd sy'n groes i'r Codau Ymarfer"). |

| | |
|---|---|
| **Ymgysylltu â'r llys yn briodol** | Mae'r ymgeisydd yn gwneud argymhellion ar gyflymder priodol ac yn cyfeirio'r llys at y canllaw dedfrydu ar gyfer ABH. |
| **Cynnwys yr holl ffeithiau perthnasol allweddol** | *Mae'r ymgeisydd yn cyfeirio at ffeithiau sy'n berthnasol i'w argymhellion cyfreithiol* (e.e. mae'r ymgeisydd yn cyfeirio at anafiadau'r achwynydd; diffyg euogfarnau blaenorol y diffynnydd; sylwadau'r swyddog cyfweld y byddai'r diffynnydd yn cael ei gadw am fwy o amser pe bai'n parhau i wadu'r honiad). |
| ***MEINI PRAWF CYFREITHIOL*** | |
| **Cymhwyso'r gyfraith yn gywir i sefyllfa'r cleient** | Mae'r ymgeisydd yn nodi'r egwyddorion cyfreithiol perthnasol ac yn eu cymhwyso'n gywir i achos y cleient, e.e. dylai'r llys gadw awdurdodaeth gan y byddai ganddo bwerau dedfrydu digonol pe bai'r diffynnydd yn cael euogfarn.<br><br>Aeth yr ymgeisydd i'r afael â rhai o'r materion sy'n destun dadl a'r sail gywir ar gyfer ple'r diffynnydd.<br><br>Mae'r ymgeisydd hefyd yn argymell y gellid eithrio cyfaddefiad y diffynnydd ar sail annibynadwyedd a/neu annhegwch, gan fod y swyddog cyfweld wedi torri'r PACE / y Codau Ymarfer. |
| **Defnyddio'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr i sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol, a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll** | Mae dadansoddiad cyfreithiol yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient. Mae'r ymgeisydd yn defnyddio'r canllaw dedfrydu i nodi canlyniad realistig pe bai'r diffynnydd yn cael euogfarn, drwy asesu beiusrwydd a niwed y diffynnydd; ystyried y man cychwyn a'r ystod dedfrydu; a ffactorau lliniarol a allai arwain at addasu'r ddedfryd am i lawr.<br><br>Mae'r ymgeisydd hefyd yn nodi'r materion allweddol sy'n destun dadl anghydfod ac yn cydnabod mai achos y diffynnydd yw bod anafiadau'r achwynydd wedi eu hachosi gan ei gweithredoedd hi ei hun ac nid gweithredoedd y diffynnydd.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn nodi rhai achosion o dorri PACE/y Codau Ymarfer sy'n debygol o fod wedi gwneud y cyfaddefiad yn un annibynadwy a/neu a fyddai'n golygu y byddai effaith andwyol ar degwch yr achos pe bai'r cyfaddefiad yn cael ei dderbyn. |